Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



*The Stories We Carry,* Y Celfyddydau Perfformio ar gyfer Plant, Artis Cymuned (llun: Springbox Photography)

# Dychmygwch. . .

## Ein gweledigaeth i Gelfyddydau Cymru 2013 - 2018

Ionawr 2015

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery®
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Darllen a sain. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.

**Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd y genedl.**

Mae ein strategaeth yn syml iawn ac mae'n cael ei chrynhoi mewn tri gair yn unig:

## Creu | Cyrraedd | Cynnal

Nid oes modd gwahanu rhwng creu celfyddyd, sicrhau ei bod yn cysylltu â phobl a rhoi iddi waddol sy'n parhau. A dyma hefyd yw'r themâu sy'n cynnal ein gwaith.

Pan drafodwn **Greu**, yr hyn sydd yn ein meddyliau yw'r weithred o greu'n artistig. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau fel y gallant greu eu gwaith gorau. Oherwydd os ydym yn **Creu'n** llwyddiannus, wedyn byddwn yn ysbrydoli hefyd.

Os ysbrydolwn bobl, bydd y bobl yn deall yr hyn sydd gennym. Maent ei eisiau ac maent yn ei werthfawrogi. Felly bydd yn rhaid inni ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau a chymryd rhan yn y gorau sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae hyn wrth wraidd ein gallu i **Gyrraedd**, ac yn hollol hanfodol i gyrraedd yn bellach nag erioed o'r blaen.

Wrth wneud hyn, os mae rhywbeth o werth yn cael ei greu yn yr hyn sy'n cael ei wneud neu yn y bobl sy'n cael eu cynnwys, wedyn dylem ofyn sut y byddwn yn gallu amddiffyn a **Chynnal** y pethau hyn mewn ffyrdd sy'n llwyddiannus yn economaidd ac a fydd yn parhau.

A phob tro dyma'n nod - Cymru, y wlad greadigol.

| Darparwn **Greu: Cyrraedd: Cynnal** drwy wneud y canlynol: | |
|---|---|
| Creu | 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu.<br>2. Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru |
| Cyrraedd | 3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau<br>4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc |
| Cynnal | 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd<br>6. Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru<br>7. Arddangos gwerth y celfyddydau<br>8. Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol |

# Dychmygwch. . .

Dychmygwch Gymru. Ac wedi gwneud hynny - ei gweld hi, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani, morio ynddi - rhowch gynnig ar feddwl am ein gwlad heb gân, heb y gair llafar ar y llwyfan na’r sgrin, heb na barddoniaeth na nofelau, na dawns na cherfluniau na cherameg na lluniau na delweddau, na’r holl draddodiadau byw sy’n gwneud ein diwylliant cyfoes mor egnïol. Mae'n fater o ffaith foel, yn y byd go iawn ac yn ein dychymyg, nad oes Cymru ddynol heb y Celfyddydau.

Felly meddyliwch am yr hyn sy'n gwneud y celfyddydau'n arbennig i chi. Cofiwch yr eiliadau trawiadol o wefr, o lawenydd ac o syndod – un funud fach lawn o hud a hyfrydwch a erys yn y cof am byth bythoedd p'un ai ydych yn ei sylweddoli neu beidio. Dim byd arall yn y byd a gaiff yr un effaith. Dyma pam bod y celfyddydau o bwys a pham yr ydym o'r farn bod y celfyddydau'n werth ymladd drostynt.

Mawr yw ein huchelgais dros gelfyddydau Cymru.

Yn y tudalennau hyn y disgrifir ein gweledigaeth sef Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd y genedl lle datgelir, meithrinir a rhennir ein talentau gorau. Felly edrych ein gweledigaeth tuag at y dyfodol am yr hyn y gallai celfyddydau Cymru fod. Mae'n fater o uchelgais creadigol a phosibiliadau dynol.

Edrychwn i'r dyfodol gyda hyder a ffydd. Soniwn am yr hyn y credwn ynddo a'r pethau yr hoffem eu gwneud. Soniwn am bwyslais a blaenoriaeth. A siaradwn mewn ffordd groesawgar a chynhwysol gan atynnu'r rhai a allai rannu, cefnogi a mowldio ein gweledigaeth. Ac os llwyddwn, dychmygwch yr hyn y gallem ei wneud. Dychmygwch y Gymru y gallwn ei chreu'n ddewr gyda'n gilydd.



*Open House*, NoFit State (llun: Andrew Billington)

## Cynllun Corfforaethol braidd yn wahanol...

**Math anarferol o ddogfen strategol sydd yma.**

Nid pentyrru amcanion, nodau a cherrig milltir - holl gynnwys arferol strategaethau corfforaethol - er mwyn eich llethu yw ein bwriad. Ein bwriad yw adrodd stori wrthych. Ac mae'n stori am ein gweledigaeth ehangach a'n huchelgais sef y pethau a fydd yn arwain ein gwaith am gyfnod y cynllun hwn.

Cydnabyddwn, wrth gwrs, bwysigrwydd amcanion a thargedau. A ninnau'n cael arian y trethdalwyr, mae'n rhaid inni allu esbonio'r hyn a wnawn a chyfrif yn glir am ein perfformiad, gan arddangos canlyniadau ymarferol a gwerth gwirioneddol am arian.

Bydd y Cynlluniau Gweithredol a gyhoeddwn bob blwyddyn yn darparu'r holl fanylion ymarferol angenrheidiol am ein cynlluniau gwario a'r targedau i fesur ein cynnydd.

Yn y tudalennau sy'n dilyn soniwn am y weledigaeth ehangach sef y pethau sy'n agos at ein calon, ein cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y dyfodol a'r materion a fydd yn debygol o effeithio arnom yn y blynyddoedd a ddaw.

**A ninnau'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae ein strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth ac agenda Llywodraeth Cymru.**

Sefydliad elusennol ydym â chyfansoddiad annibynnol. Serch hynny mae gennym gysylltiadau cryfion, pwysigion â'n prif noddwr, Llywodraeth Cymru. Felly gweithiwn er budd trethdalwyr Cymru gan sicrhau'r gwerth cyhoeddus a safon y canlyniad yn y gweithgareddau a gefnogwn.

**Mae'r Llywodraeth am gael Cymru deg, ffyniannus a hyderus sy'n gwella ansawdd bywyd pobl Cymru ym mhob un o'i chymunedau.**

Mae Rhaglen y Llywodraeth (2011-16) yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o gyfnod y cynllun hwn. Mae'n gwneud nifer o ymrwymiadau:

- pobl iach sy'n byw bywyd cynhyrchiol mewn economi fwy ffyniannus ac arloesol
- cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda lefelau is o dlodi (yn enwedig tlodi plant) a rhagor o gydraddoldeb
- amgylchedd gwydn sy'n defnyddio ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy
- cymdeithas gydag ymdeimlad byw o'i diwylliant a'i threftadaeth.

Mae'r Celfyddydau yn cefnogi'r amcanion hyn.

## Ein hamgylchedd gweithredu a byd ein gwaith

**Ar ran y cyhoedd ymrwymwn i gefnogi sector celfyddydol sy'n ffynnu.**

Cawn ein hariannu gan arian y cyhoedd. Mae'n rhaid inni allu arddangos y budd cyhoeddus y mae ein gwaith yn ei ddarparu ac i ba raddau y gwnawn wahaniaeth. Mae'n rhaid inni allu arddangos yn ddigamsyniol ein bod yn cyflawni gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

**Mae'r amgylchedd y gweithiwn ynddo yn parhau i gael ei ddominyddu gan y dirwasgiad economaidd a'r pwysau ar y pwrs cyhoeddus.**

Datblygwn y celfyddydau a chefnogwn y sefydliadau allweddol a ariannwn, yn erbyn cefndir yr amodau economaidd cyfredol ansicr. Gyda 38% o gartrefi yng Nghymru heb oedolion mewn gwaith[1], a thlodi plant yn anodd iawn i'w gwaredu, mae goblygiadau cyni economaidd yng Nghymru yn amlwg ddigon. Bydd yn rhaid felly i ddiwylliant a'r celfyddydau gynnig, ymhlith pethau eraill, fuddion creadigol a all gefnogi amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach y llywodraeth.

**Yn y tymor byr caiff y pwysau ariannol effaith arnom ni ond cânt hefyd effaith ar ein partneriaid ariannu.**

Mae hyn yn arbennig o wir am ein partneriaid ariannu yn yr awdurdodau lleol.

Mae'r bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a llywodraeth leol yn sail i ariannu a datblygu celfyddydau Cymru.

Serch hynny, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yn cynyddu. Mae lleihau arian cyhoeddus yn ogystal â'r rhwymedigaeth gadarn i amddiffyn gwasanaethau statudol yn golygu bod rhagor o bwysau ar wasanaethau dewisol (megis y celfyddydau). O ganlyniad, mae llawer o awdurdodau lleol yn cael anhawster i amddiffyn cyllidebau ac mewn nifer o achosion yn archwilio ffyrdd amgen o reoli a darparu gwasanaethau celfyddydol. Cefnogwn hwy gyda gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

**Bydd awdurdodau lleol yn cael eu heffeithio gan newidiadau sylweddol yn strwythurau llywodraeth leol Cymru.**

Cafodd Adolygiad Williams ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2014. Roedd yr adolygiad yn ystyried dyfodol strwythurau'r gwasanaethau cyhoeddus ac roedd wedi argymell lleihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel yr â'r broses negodi rhagddi ac fel y gwneir y penderfyniadau mawrion am y strwythurau, bydd yn hanfodol inni gadw'r pethau o bwys i ni – y celfyddydau – ar agenda llywodraeth leol.

Mae adegau penodol o berygl o'n blaenau. Ac os nad ydym yn ofalus, gallai'r celfyddydau syrthio oddi ar restr blaenoriaethau'r awdurdodau lleol. Felly gweithiwn gyda'n cydweithwyr ym maes llywodraeth leol i archwilio a chodi proffil yr arian cyfredol a gaiff y celfyddydau fel nad anwybyddir y buddsoddiad hwn yn ystod y cyfnod pontio hwn a'r cynllunio ar gyfer y dyfodol.

[1] Data o Gyfrifiad 2011

## Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu

**Rydym wedi arddangos ein cynlluniau i ddatblygu'r celfyddydau mewn strategaeth newydd – *Ysbrydoli: Creadigrwydd a'r Celfyddydau.***

Nid rhestr gaeth o'r hyn a wnawn dros y pum mlynedd nesaf mo Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau. Nid yw'n benodol ychwaith i unrhyw un gelfyddyd. Ond nid oherwydd ein bod wedi colli diddordeb yn y celfyddydau unigol megis cerddoriaeth, y theatr, y ddawns a'r celfyddydau gweledol a chymwys. Byddai hynny'n bell iawn o fod yn wir. Ond nid y rhain yw man cychwyn ein strategaeth newydd ychwaith. Yn y gorffennol roedd strategaethau'r celfyddydau sengl yn gyrru'r gwaith yn ei flaen hyd at lwyddo ond erbyn hyn maent yn sefyll ar wahân i'r her fwy a'r gwaith angenrheidiol a'r effeithiau ym maes y celfyddydau wedi'u cymryd yn gyfanwaith.

Rydym am gydnabod hefyd fod ymarfer creadigol - a'r gwaith y mae artistiaid am ei greu - yn croesi ffiniau gymaint ag yw'r ymarfer yn cael ei ddiffinio ganddynt. Nid yw strategaeth alluogol yn caethiwo na chyfyngu ar y gwaith a dyna hoffem ei gael yn y ddogfen, Ysbrydoli. Mae'n fodd i gelfyddydau Cymru gael eu diffinio gan ddychymyg yr artist yn hytrach na channoedd o labeli a chategorïau.

**Mae'r celfyddydau yn newid ac yn tyfu a bydd yn rhaid i'n strategaethau a'n hariannu adlewyrchu hynny**

Os nad yw'n gweledigaeth yn gwneud dim arall, bydd yn rhaid iddi gyhoeddi ein bod yn disgwyl i ddyfodol celfyddydau Cymru edrych a theimlo'n wahanol iawn. Ac wrth 'gwahanol' rydym yn golygu 'gwell'. Celfyddyd sy'n ffrwyth nwyd a dychymyg, crefft a chynnyrch, celfyddyd sy'n estyn tuag atom ac yn cyffwrdd â ni - mae'r fath Gelfyddyd yn wir gelfyddyd nodweddiadol a phwysfawr. Mae ansawdd o bwys, bob amser ac ymhob ffordd. Mae ansawdd yn aros yn sylfaenol i'n penderfyniadau ariannu, yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau fel y gallant greu eu gwaith gorau. Rydym am i bobl Cymru fwynhau a chymryd rhan yn y gwaith gorau sydd gennym. Dim ond pan drewir y tant cywir y digwydd y profiad celfyddydol gorau. A dim ond wedyn y bydd y celfyddydau'n cysylltu â phobl. Creu celfyddyd a'i rhannu a chymryd rhan ynddi wrth berfformio, yn y gymuned, oddi ar y tudalen, mewn rhyw le, yn ein bywyd - dyma'r adeg y llwydda'r celfyddydau i'n hysbrydoli'n unigol ac yn dorfol.

**Bob tro yr artist...**

Artistiaid ac nid sefydliadau sy'n creu celfyddyd.

Yr artist, yn mynd i'r afael â'r byd yn ei obeithion a'i drychinebau, ei newidiadau a'i aflonyddwch, sy'n ailddyfeisio mynegiant diwylliannol priodol i'r oes.

Mae'r artist ifanc heddiw, er enghraifft, yn debygol o fod yr un mor gyfforddus yn gweithio ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau creadigol, yn symud yn ddi-dor rhwng y noddedig a'r masnachol, yn mynd i'r afael ag achosion cyfoes sydd y tu hwnt i derfynau traddodiadol y celfyddydau: gwyddoniaeth, technoleg, iechyd, ecoleg – achosion taer, anodd ein hoes.

Bydd ar lawer o'r artistiaid hyn eisiau gweithio mewn ffordd ryngddisgyblaethol, yn gosod eu gwaith oddi mewn i gyd-destun ehangach y diwydiannau creadigol. Hwy yn aml fydd y torwyr tir newydd, yr arloeswyr, yr entrepreneuriaid newydd fydd yn creu swyddi a buddsoddiadau er budd eraill.

## Cynyddu gwerth y cyfnewid diwylliannol rhyngwladol i gelfyddydau Cymru

**I ni mae'r celfyddydau yn gwneud Cymru yn atyniadol a chyfoes. Ond gallant hefyd ein gwneud yn nodweddiadol a dymunol yng ngolwg eraill hefyd.**

Y celfyddydau a gynhyrchir yng Nghymru a hynny i'r safon uchaf oll yw'r ffordd orau o hyrwyddo diwylliant y Gymru sydd ohoni. Dyma ein pwynt gwerthu unigryw ym marchnad y byd sy'n credu mewn buddsoddiadau sgleiniog y dyfodol yn hytrach na thrysorau llychlyd y gorffennol.

Mae rhagoriaeth a chreadigrwydd celfyddydau Cymru yn cyfrannu mewn ffordd bwerus at ddatblygu ein cydberthnasau diwylliannol â gweddill y byd. Mae llawer o sefydliadau celfyddydol Cymru o bwys rhyngwladol yn eu rhinwedd eu hunain, ond mae rhagor i'w wneud o ran manteisio ar eu swyddogaeth yn llysgenhadon diwylliannol dros Gymru.

Mae Cymru'n wlad ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig ac ynghanol Ewrop estynedig. Bu Llywodraeth Cymru yn meithrin perthnasau rhyngwladol ac mae wrthi'n gwneud o hyd. Bydd y cynhwysion diwylliannol ac artistig i'r perthynasau hynny'n gwneud ein hymgysylltu â gwledydd estron yn nodweddiadol ac yn fwy cofiadwy.

Mae partneriaeth gref rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a The British Council. Gyda'i gilydd byddwn yn gwella ein cefnogaeth i artistiaid a sefydliadau celfyddydol gan helpu'r rhai sydd am weithio'n rhyngwladol a chymryd mantais ar farchnadoedd newydd dramor.

Byddwn hefyd yn atynnu gweithgarwch i Gymru sy'n ehangu gwybodaeth ein hartistiaid a'r cynulleidfaoedd ar gyfer y celfyddydau. Bydd yn rhaid i Gymru agor ei siop a dechrau o ddifrif werthu ei chynnyrch celfyddydol ym marchnad gyfoethog y cynadleddau, y ffeiriau masnachol a'r digwyddiadau mawrion. Mae arnom angen cystadlu'n rhyngwladol gan ennill y digwyddiadau i Gymru.



Kizzy Crawford yn perfformio ym Mhafiliwn Cymru, Lorient

## Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau

**Hoffem annog rhagor o bobl i brofi'r gorau y gall y celfyddydau ei gynnig.**

Mae hyn yn swnio'n syml. Parcha a gwerthfawroga cymdeithas deg a goddefgar greadigrwydd pob un o'i dinasyddion. Serch hynny, mae gormod o bobl o hyd yn teimlo bod rhwystrau amhosibl eu gorchfygu sy'n eu hatal rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Bydd yn rhaid inni golli amynedd gyda'r rhwystrau hyn sy'n atal hygyrchedd pobl i'r celfyddydau, boed y rhwystrau hynny'n rhai diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd. Bydd dymchwel y rhwystrau hyn yn un o'n prif flaenoriaethau dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf. Dyhewn am gymdeithas sy'n cofleidio cydraddoldeb ac yn dathlu amrywiaeth o ran hil, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oed, iaith, anabledd neu dlodi.

Bydd yn rhaid inni agor ein llygaid wrth edrych ar y byd. Dros sawl cenhedlaeth, mae Cymru wedi croesawu pobl yma o bedwar ban byd. Daeth y bobl hyn â thraddodiadau a chredoau newydd gan gyfoethogi ein traddodiadau diwylliannol, gwleidyddol a dinesig cynhenid. Daethant â'u hieithoedd, eu ffydd a'u mewnwelediadau diwylliannol. Hefyd bu eu hanes, eu storïau, eu cerddoriaeth a'u bwyd yn fodd i fowldio Cymru a chynhyrchu'r wlad a rannwn heddiw.

**Un agwedd amlwg ar sut yr ydym yn mynegi ein hunain yw'r geiriau a'r iaith yr ydym yn eu defnyddio.**

Gwlad ddwyieithog ydym – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac yn gasgliad o unigolion a chymunedau. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Ond mae llawer o ieithoedd eraill hefyd. Adlewyrchir hyn yn y nifer mawr o wahanol ieithoedd a siaredir heddiw yng Nghymru.

Coledda'n gweledigaeth y ffaith bod yno sawl Cymru, yn ddiwylliannol, yn ddaearyddol, yn economaidd ac yn ieithyddol. Mae'r iaith yn caniatáu inni ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant sy'n eithriadol o gyforiog. Yn y sefyllfa hon, ffynnu y mae'r celfyddydau. Mae'r celfyddydau'n elfen allweddol wrth gynnal swyddogaeth hollbwysig y Gymraeg ym mywyd Cymru. Mae'n rhaid inni amddiffyn hawl pobl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith, boed yn ddefnyddwyr, yn ymgyfranogwyr neu'n artistiaid.

Dibynna bywiogrwydd a gwreiddioldeb celfyddydau Cymru ar llif ffres o syniadau newydd a enir ac a ddatblygir ac a rennir drwy gyfrwng pob un o'n hieithoedd.
shared through all our languages.



*Y Sioe Sirol*, Oriel Myrddin, Duncan Ayscough a Catrin Howell
(llun: Trwy garedigrwydd Oriel Myrddin)

## Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc

**Wrth wraidd ein gwaith yw annog talentau plant a phobl ifainc.**

Gall y celfyddydau feithrin gallu pobl ifainc i gwestiynu, gwneud cysylltiadau a magu meddwl miniog ac annibynnol. Gallant ysbrydoli pobl ifainc ag uchelgais a hyder newydd gan herio tlodi dyhead a thorri cylch seithug yr amddifadedd a achosir gan dangyflawni addysgiadol. Gall y celfyddydau ddarparu'r allwedd sy'n datgloi'r drws sy'n arwain at y byd addysg bellach ac uwch ac yn y man at y llwybr i gael swydd.

Her fwyaf arwyddocaol cyfnod y Cynllun hwn fydd gweithredu adroddiad Y Celfyddydau ac Addysg sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Yn yr adroddiad mae dwy brif thema.

Mae'r thema gyntaf yn ymwneud â'r angen i ddatblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc yn ysgolion Cymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar godi safonau ym maes llythrennedd a rhifogrwydd a chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ail thema'n canolbwyntio ar wella safon addysgu a dysgu yn y celfyddydau ledled Cymru, gan sicrhau bod pob person ifanc yn cael hygyrchedd i brofiadau celfyddydau o werth ac o safon a bod y rhai sy'n meddu ar dalent eithriadol yn gallu gwireddu eu posibiliadau.

Mae'r ddau faes yn gofyn am ymwneud gweithredol artistiaid, gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol a threftadaethol. Bydd y ddau yn adeiladu ar yr ymarfer cryf a ddatblygir yng Nghymru ond bydd hefyd yn mynd yn bellach. Yr uchelgais yw cyrraedd ysgolion newydd a grwpiau newydd o blant a phobl ifainc a oedd cyn hynny y tu hwnt i gyrraedd y fath fentrau.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru i ariannu a gweithredu argymhellion yr adroddiad.



Ymweliad Ysgol i Oriel Myrddin (llun: Seren Stacey)

## Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd

**Geiriau hollbwysig newydd cynllunio diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yw gwytnwch a chynaliadwyedd.**

A da o beth yw hynny. Daw gwytnwch o ymdeimlad o feddu ar wreiddiau. Mae sefydliad gwydn yn un gyda'i wreiddiau'n ddwfn ym mhridd y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, sefydliad sy'n mabwysiadu model busnes sy'n gallu gwrthsefyll newid, boed y newid hwnnw'n rhagweladwy neu'n annisgwyl. Mae sefydliad gwydn yn un gyda'r sgiliau, y gallu a'r adnoddau i oroesi yn y tymor hwy.

Ond nid pledio achos cadw'r sefyllfa fel ag y mae yr ydym. Bydd y sefydliad gwydn yn hydeiml i'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo gan sylwi ar y newidiadau sy'n digwydd a'u disgwyl hefyd. Bydd gan sefydliad gwydn ddealltwriaeth soffistigedig o gynaliadwyedd. Bydd y fath sefydliad yn deall hanfod datblygiad cynaliadwy a'r ffaith ei fod yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan gyflawni gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cynaliadwyedd a datblygiad cynaliadwy wrth wraidd ei phrosesau o lunio polisïau ac yng nghanol y sector cyhoeddus ehangach. Croesawn hyn ac ymrwymwn i lofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

**Bydd arloesedd ac arbrofi'n fodd inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddatblygu a chynnal y celfyddydau.**

Mae disgwyliadau'r genhedlaeth ddigidol yn wahanol iawn i'r genhedlaeth a'i cenhedlodd. Mae technoleg isel ei chost yn cynnig ffyrdd newydd o gyfnewid barn, syniadau a chynnwys a hynny'n gyflym, yn ogystal â modelau busnes newydd.

Bydd y rhai cyfarwydd â'r byd digidol yn dod o hyd i ffyrdd newydd o greu a dosbarthu eu gwaith ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chynulleidfaoedd. Gall pawb a fynno ymgysylltu â'r byd erbyn hyn. Gallant gyfathrebu, trafod busnes, ymuno â chymunedau o ddiddordeb, a mwynhau gwaith mewn marchnad ryngwladol anferth. Yn yr oes ddigidol newydd hon gellwch symud heb gloffi rhwng bod yn aelod o'r gynulleidfa i fod yn gyd-greawdwr, yn feirniad, yn guradur neu'n fuddsoddwr. Cefnogwn artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r dechnoleg newydd hon yn eu cynnig.

## Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru.

**Rydym yn credu i'r carn ym mhwysigrwydd buddsoddi cyhoeddus yn y celfyddydau.**

Mae'n gwarantu dewis ehangach gan ddarparu rhaglennu mwy amrywiol na'r diddordebau cul y gallai'r farchnad fasnachol eu cynnal. Mae'n gwneud yn fwy fforddiadwy ystod o gyfleoedd i bobl fwynhau'r celfyddydau a allai fod y tu hwnt i'w cyrraedd fel arall oherwydd eu bod yn llai bras eu byd. Dyma'r arian - y cyfalaf mentro - sy'n gymorth i gomisiynu, cynhyrchu a chyflwyno gwaith newydd.

Serch hynny, ar adeg o gyni economaidd mae ein swyddogaeth yn mynd yn fwy cymhleth. Bydd yn rhaid inni wneud pob dim yn ein gallu i berswadio partneriaid ariannu i gadw ffydd gyda'r celfyddydau. Ond bydd yn rhaid inni hefyd annog rhagor o wytnwch a chynaliadwyedd: lleihau dibyniaeth sefydliadau celfyddydol ar arian y cyhoedd; helpu'r sefydliadau (a nyni) i fwyafu'r incwm a enillir; a'n hannog ni bob un i edrych yn fwy dychmyglon ar sut y gallwn gydweithio'n agosach.

**Nid yw'r celfyddydau'n gweithio'n ynysig ac ni weithiwn innau ychwaith mewn faciwm.**

Gweithiwn ag ystod eang o sefydliadau, gan gynyddu swm yr arian a fuddsoddir yng nghelfyddydau Cymru ac sy'n fodd i greu rhagor o gyfleoedd i bobl fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae'r bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r llywodraeth – yn genedlaethol ac yn lleol - yn hanfodol. Dyma sylfaen celfyddydau Cymru, oherwydd rhyngom mae gennym y posibiliadau i gyffwrdd â bywyd pawb.

Mae Cynghorau Lleol yn dod â'u gwybodaeth leol, eu hystod eang o gyfrifoldebau, eu datblygiad diwylliannol a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Daw Cyngor Celfyddydau Cymru ag arbenigedd yn y celfyddydau a safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol ar faterion lleol.

Ond mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu gorfod gwneud toriadau sylweddol yn eu cynlluniau gwario at y dyfodol. Ac yntau'n faes dewisol o ran gwario, mae gwario ar y celfyddydau'n parhau i gael ei wasgu fel yr â gofynion gwario statudol yn rhan fwyfwy o gyllidebau cyffredinol yr awdurdod lleol.

**Serch hynny, bydd yn rhaid inni fynd yn bellach nag amddiffyn y ffynonellau buddsoddi presennol a'i gadael hi felly.**

Bydd yn rhaid inni fod yn entrepreneuraidd wrth nodi ffynonellau newydd o arian a cheisio ein gorau glas yn ddyfal i gael arian Ewrop i wella gwerth a chyrraedd y buddsoddiad a wnawn ein hunain.

**A ninnau'n sefydliad partneriaeth, mabwysiadwn agwedd o fod yn agored am fusnes.**

Er enghraifft, mae ein perthynas â darlledwyr cyhoeddus Cymru – BBC Cymru ac S4C – yn ein cynorthwyo i gynhyrchu rhagor o adnoddau ar gyfer y celfyddydau.

Gyda'n gilydd rhannwn ymrwymiad i gysylltu'r cyhoedd â'r celfyddydau. Rydym hefyd yn llawn angerdd am ddatblygu a chefnogi'r talent greadigol orau ac archwilio'r posibiliadau mewn llwyfannau digidol newydd. Drwy weithio gyda'i gilydd yn agosach, credwn y gallwn greu rhagor o gyfleoedd i gefnogi a meithrin creadigrwydd gan gomisiynu gwaith newydd, cefnogi arloesedd a mentro a chynyddu sgiliau technegol a chrefft yn y sector creadigol.

## Arddangos gwerth y celfyddydau.

**Mae gennym ddyletswydd i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau hyd eithaf ein gallu.**

Ni allwn wangalonni. Disgwylir inni amlygu gwerth y celfyddydau ac ymgyrchu dros ennill yr arian sydd ar y celfyddydau ei angen er mwyn iddynt dyfu a ffynnu. Byddwn yn benderfynol ac egnïol wrth gyflwyno ein hachos.

Hyd yn hyn, bu'r Celfyddydau'n ddigon ffodus i gael y gefnogaeth oddi wrth lywodraeth genedlaethol a lleol. Serch hynny, mae'r rhagolygon ariannu'n dechrau edrych yn waeth a bydd angen dadleuon newydd os ydym i berswadio penderfynwyr i godi materion diwylliannol ar agenda eu polisïau. Datblygwn a defnyddiwn y dadleuon hyn.

**Serch hynny, wrth wneud hyn, bydd yn rhaid inni fod yn ymwybodol o'r pwysau a'r cyfyngiadau sydd ar bobl eraill.**

Wrth ymgyrchu bydd yn rhaid inni fod yn gadarn ac, ar yr un pryd, ddangos parch. Er enghraifft, bydd yn rhaid inni gydnabod atebolrwydd democrataidd sydd gan gynghorwyr i wneud y penderfyniadau anodd ar ran eu hetholwyr. Ond bydd yn rhaid i benderfynwyr weithredu'n ddoeth ac yn ddewr os byddant yn gwasanaethu'r cyhoedd hyd eithaf eu gallu. Bydd yn rhaid i arweinwyr cymunedol benderfynu pa fath o gymdeithas y maent am ei gael a pha mor bell y maent yn fodlon mynd i'w gael. Os hoffem fyw mewn cymuned fywiog, ddeinamig, agored ei meddwl ac yn barod i feithrin a chyfoethogi bywyd, bydd yn rhaid i benderfynwyr weithredu a gwneud yr hyn sydd ei angen i wneud hyn yn ganlyniad tebycach yn hytrach nag un llai tebygol.

**Y peryg yw y bydd methiant i fynd i'r afael â swyddogaeth y celfyddydau mewn economi estynedig sy'n gymdeithasol gynaliadwy a seiliedig ar wybodaeth.**

Mae arnom angen llunio stori sy'n esbonio sut y mae cydchwarae sgiliau a chyfleoedd mewn cymdeithas gyfoethog, ddemocrataidd yn creu cynhyrchion diwylliannol sy'n ein hymddiffinio a'n cynrychioli i'r byd.

Maent yn haniaethol ac yn symbolaidd, yn broffidiol ac yn hygyrch. Maent yn ysbrydoli, yn cwestiynu ac yn ein helpu i ddychmygu ein dyfodol. Hefyd ar adeg pan fo'r byd, fe ymddengys, yn culhau, efallai mai ein celfyddydau a fydd yn ein nodweddu a'n gwneud yn arbennig.

Mae'r celfyddydau'n boblogaidd y tu hwnt yng Nghymru – canu mewn corau, darllen llyfrau, mynd i'r sinema, ymweld ag orielau ac amgueddfeydd, gwrando ar gerddoriaeth ac ymgyfranogi o ystod eang o weithgarwch creadigol. Mae'r celfyddydau'n ein gwneud yn falch ac yn hapus. Maent yn adfywio ein hymdeimlad cymunedol ac yn rhoi rhan inni ym maes ymgysylltu dinesig ehangach. A hwy hefyd sy'n helpu creu cymdeithas iachach, fwy ymgysylltiol a mwy cynhyrchiol.



*Anweledig,* Cwmni'r Frân Wen (llun: Keith Morris)

## Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff cyhoeddus effeithlon ac effeithiol.

**Mae'r cyhoedd yn iawn i fynnu bod y sefydliadau sy'n cael eu hariannu ganddo yn effeithlon ac yn gost effeithiol.**

Byddwn yn parhau i ddal gafael dynn ar ein gwaith ein hunain a'i gostau. Hefyd disgwyliwn i'r rhai yr ydym yn gweithio gyda hwy i drafod eu gwaith mewn ffordd effeithiol sy'n gweddu i fusnes. Nid yw cael arian oddi wrth y cyhoedd yn hawl i neb - mae'n rhaid i bawb ennill yr arian hwn. Hefyd bydd yn rhaid inni arddangos gwerth am arian ar draws pob agwedd ar ein gwaith.

Gwnawn arbedion cost gweinyddol yn ein busnes ein hunain drwy symleiddio prosesau, defnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael a chreu amgylchedd lle yr adolygwn cost-effeithiolrwydd ein gwaith yn gyson. Dyma'r cwestiwn cyson sy'n ein hwynebu: "beth arall y gallwn ei wneud i gynyddu'r gwerth cyhoeddus a mwyafu'r lefelau arian sy'n mynd yn uniongyrchol i'r celfyddydau?"


Nid anwybyddwn y disgyblaethau priodol o ymarfer busnes da a byddwn yn gofyn gymaint oddi wrthym ni ein hunain ag oddi wrth unrhyw sefydliad masnachol. Ond bydd yn rhaid inni gadw mewn cof o hyd mai buddsoddiad y cyhoedd yn ein gwaith yw'r rheswm dros ein bodolaeth.

Byddwn yn tyfu a datblygu ein diwylliant o fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan weithio er budd y cyhoedd ac adeiladu ar hyder ein rhanddeiliaid yn ein gallu i gyflawni.

**A ninnau'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gennym ymrwymedigaeth arbennig i weithio'n gadarnhaol ac yn effeithiol i droi polisi cyhoeddus yn waith ymarferol.**

A ninnau'n sefydliad hyd braich, rydym yn ymroddedig i gynnal perthynas atebol, ddeinamig a llawn parch gyda Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn iawn bod ein cyfrifoldebau penderfynu annibynnol yn gweddu'n gyfforddus ag angen cywir Llywodraeth Cymru i gael golwg clir ar sut y caiff arian y trethdalwyr ei fuddsoddi. Credwn fod y Llywodraeth, y cyhoedd a'r celfyddydau yn cael budd oddi wrth arbenigedd, dilysrwydd a rhyddid o ran mynegiant artistig y gall sefydliad hyd braich eu darparu.



Siyaya – dawnswyr Affricanaidd ym Merthyr Tudful
(llun: Hazel Hannant)

## Ein strategaeth ariannol

**Cynllunio ariannol ar adeg gwneud toriadau.**

Mae ein strategaeth ariannol ar gyfer cyfnod y cynllun hwn yn anelu at gyflawni tri amcan sylfaenol – cyflawni ein blaenoriaethau o ran datblygu'r celfyddydau; amddiffyn y gweithgareddau celfyddydol a werthfawrogwn fwyaf; a rheoli'r goblygiadau o leihad posibl yn arian y cyhoedd.

**Adeiladwn ar lwyddiannau'r gorffennol gan aleinio ein strategaeth ariannol â blaenoriaethau'r dyfodol.**

Mae gennym strategaeth gelfyddydol newydd – *Ysbrydoli: Creadigrwydd a'r Celfyddydau.* Gweithredu'r strategaeth sydd wrth wraidd ein strategaeth ariannol. Serch hynny, rhoddwn sylw i faterion eraill hefyd fel yr â'n Cynllun rhagddo.

Dyma hwy:

- ymateb i ddisgwyliadau'r Llywodraeth fel y disgrifir hwy yn ein Llythyr Cylch Gwaith blynyddol (gan gynnwys mynd i'r afael â goblygiadau deddfwriaeth allweddol y Llywodraeth megis Bil Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol)
- annog partneriaid i barhau i ariannu'r celfyddydau
- mwyafu buddsoddiadau o bob ffynhonnell bosibl
- adeiladu gwytnwch a chynaliadwyedd yn y celfyddydau
- sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr Cymru

**Un strategaeth, sawl ffynhonnell ariannu.**

Mae'r cymorth grant ac arian y Loteri a gawn (yn ogystal ag unrhyw incwm ychwanegol y gallwn ei godi) yn ein galluogi i gyflawni ein strategaeth gyffredinol i ddatblygu'r celfyddydau. Mewn geiriau eraill, mae gennym strategaeth sengl wedi'i chefnogi gan ddwy brif ffynhonnell o arian. Gan sicrhau bod arian y Loteri yn ategu – ond heb ailadrodd - arian y Llywodraeth, gallwn wella gwerth buddsoddiad y trethdalwr. Dyma'r egwyddor 'ychwanegolrwydd'.

Yn ymarferol golyga hyn fod arian cymorth grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r canlynol:

- gweithgareddau sy'n parhau drwy'r flwyddyn gan ein portffolio o sefydliadau allweddol (y rhai sy'n cael arian refeniw gennym bob blwyddyn)
- grantiau a chontractau strategol ar gyfer prosiectau neu fentrau sy'n cydweddu â blaenoriaethau polisi Cyngor Celfyddydau Cymru (fel arfer y rhai sy'n adeiladu partneriaethau strategol gydag asiantaethau eraill sy'n trosoli adnoddau newydd ar gyfer y celfyddydau)
- ymchwil, eiriolaeth a digwyddiadau cyhoeddus sy'n rhan o'n rhaglen arferol o weithgarwch

Ac mae arian y Loteri yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r canlynol:

- ein rhaglenni ariannu sy'n agored i gais (rydym yn prosesu tua 1,300 o geisiadau am arian bob blwyddyn)
- Prosiectau cyfalaf a chelfyddyd gyhoeddus
- meysydd o weithgarwch wedi'u dirprwyo (megis yr arian i ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau a reolir drosom gan Ffilm Cymru)
- prosiectau datblygu sy'n gyfyngedig o ran amser (neu rhai untro)



**Felly bydd ein strategaeth ariannol yn cyfarwyddo adnoddau tuag at bum cam gweithredu.**

1. Gweithredu ein strategaeth gelfyddydol *Ysbrydoli: Creadigrwydd a'r Celfyddydau*

2. Cyflawni rhagor o wytnwch diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y gweithgarwch a gefnogwn gan leihau lefel y ddibyniaeth ar arian y cyhoedd

3. Buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gymorth i'n partneriaid o ran eiriol, amddiffyn a gwarchod celfyddydau Cymru

4. Cynyddu, drwy arloesedd ac entrepreneuriaeth, swm yr arian a fuddsoddir yng nghelfyddydau Cymru

*Creating a Scene,* Gosodiad, Oriel Davies

5. Sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff cyhoeddus perthnasol, effeithlon, ac atebol

Yn wyneb sawl blwyddyn arall o gyni economaidd a'r wasgfa ar wario arian y cyhoedd a ddaw yn sgil hynny, ni all twf ddibynnu'n unig ar gynnydd yn arian y cyhoedd. Disgwylir i sefydliadau allweddol arddangos lefelau uchel o graffter masnachol oherwydd yn y dyfodol bydd gorddibyniaeth ar gymhorthdal gan y cyhoedd yn annymunol ac yn anghynaliadwy.

Byddwn yn parhau i adolygu, o bryd i'w gilydd, a yw'r sefydliadau a ariannwn yn haeddu'r arian hwnnw, yn enwedig y rhai sy'n cael cyfran fawr o'r arian sef ein portffolio o sefydliadau sy'n cael arian refeniw. Bydd aelodaeth y portffolio bron yn sicr yn newid ac esblygu ac mae'n rhaid iddi ei wneud os ydym am gwobrwyo celfyddyd gyffrous a newydd.

## Felly dychmygwch eto…

Dychmygwch y Gymru y gallem ei chreu os, gyda'n gilydd, gwnawn hyn oll a rhagor.

Cymru lle deellir mai'r Celfyddydau yw ystyr Bywyd. Cymru lle deellir bod mecanwaith goroesi y Wladwriaeth Les – Iechyd, Nawdd Cymdeithasol, Addysg ac yn y blaen – yn fodd yn unig o alluogi pobl i ffynnu a gwneud yr hyn sy'n nodweddu ein natur gynhenid ni: creu celfyddyd.

Dychmygwch Gymru lle mae dinasyddion yn ymgysylltu'n gyson drwy'r celfyddydau ar sawl lefel â'r materion moesegol ac emosiynol y mae'r meddwl a'r crebwyll yn ymgodymu â hwy yn byth parhaus.

Dychmygwch Gymru y mae ei democratiaeth wedi'i bywiogi gan allu ei phobl i'w gweld eu hunain yn y broses dorfol o greu a gwerthfawrogi celfyddyd a'r hyn a fwriadant yn unigol ac yn gymdeithasol.

Dychmygwch Gymru lle mae'r celfyddydau yn ganolog i hunaniaeth ein cenedl gan beri bod pobl eraill yn dymuno ymweld â ni a dod i'n hadnabod. Bydd yn rhaid inni gael ein gweld a'n hadnabod megis ni'n hunain os ydym i lwyddo ymhob ffordd sydd ei hangen ar ein byd sy'n canolbwyntio'n fwyfwy ar greadigrwydd.

Dychmygwch Gymru gyda'r gred a'r awydd, pan fo'r amser yn iawn, i fentro. Nid mentro'n ffwrdd â hi neu'n anghyfrifol ond yn bwyllog ac yn hyderus, gan ddefnyddio ein crebwyll, ein gwybodaeth a'n harbenigedd. Mae ein lles dinesig yn dibynnu ar hyn. Oherwydd, os gwthiwn y ffiniau cysurlon gyda dewrder a chwilfrydedd, y byddai'n bosibl inni gyrraedd darlun cliriach o'n dyfodol sy'n ein cynnwys ac sy'n wahanol, heriol ac efallai hyd yn oed yn drawsnewidiol.



Diwrnodau Dawns, Canolfan Celfyddydau Taliesin (llun: Phil Rees)

## Yr hyn a wnawn

Cyflawnwn ein hamcanion drwy:

- **cefnogi a datblygu gweithgarwch celfyddydol o safon** – buddsoddwn arian cyhoeddus a ddarperir gan y trethdalwyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddyrannu inni. Defnyddiwn yr arian hwn i sicrhau ffyniant celfyddydau Cymru

- **dosbarthu arian y Loteri** – drwy geisiadau i'n rhaglenni ariannu'r Loteri, gallwn ariannu prosiectau sy'n datblygu cyfleoedd celfyddydol newydd

- **rhoi cyngor am y celfyddydau** – gyda'n staff a'n hymgynghorwyr, mae gennym y stôr fwyaf o arbenigedd a gwybodaeth am gelfyddydau Cymru

- **codi proffil celfyddydau Cymru** – ni yw llais cenedlaethol celfyddydau Cymru sy'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ansawdd, gwerth a phwysigrwydd celfyddydau Cymru

- **codi arian at y celfyddydau** – atynnwn ragor o arian i economi celfyddydau Cymru, gan sicrhau arian Ewrop ar gyfer mentrau allweddol ac incwm rhedeg cynhyrchu prosiectau megis Cynllun Casglu, ein cynllun prynu â benthyciad di-log eitemau o'r celfyddydau a chrefftau gweledol

- **dylanwadu ar gynllunwyr a phenderfynwyr** – gall y celfyddydau gael effaith drawiadol ar ansawdd bywyd pobl ac ar y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio. Ein swyddogaeth yw sicrhau bod hyn yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i ddathlu

- **datblygu cyfleoedd rhyngwladol yn y celfyddydau** – drwy ein hasiantaeth, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, anogwn gyfnewid a chydweithio rhyngwladol

- **hyrwyddo perfformiadau o safon mewn cymunedau lleol** – mae ein cynllun *Noson Allan* yn hyrwyddo'r celfyddydau mewn lleoliadau ledled Cymru



© Touch Trust

## Ein targedau pennawd ar gyfer 2018

| Amcan | Mesur |
|---|---|
| 1. Creu'r amgylchedd i'r celfyddydau ffynnu | Portffolio deinamig o artistiaid a sefydliadau celfyddydol Gymru sy'n ennill bri cenedlaethol am safon eu gwaith. |
| 2. Cynyddu gwerth cyfnewid diwylliannol rhyngwladol ar gyfer celfyddydau Cymru | Twf o 25% yng ngweithgarwch rhyngwladol ein portffolio o gwmnïau, mentrau ac unigolion celfyddydol eraill, sy'n arddangos rhagor o allu i weithio'n rhyngwladol gan ennyn canmoliaeth y beirniaid. |
| 3. Dod o hyd i gyfleoedd, ffyrdd a lleoedd newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau | Cynnydd o 3% yn lefelau mynychu ac ymgyfranogi ymhlith unigolion, teuluoedd a chymunedau ag incwm isel. |
| 4. Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifainc | 30,000 o bobl ifainc oed ysgol yn dangos gwelliannau yn eu llythrennedd, eu rhifogrwydd a'u cyrhaeddiad o ganlyniad i ymgysylltu â'r celfyddydau ac â gweithgareddau addysg greadigol. |
| 5. Annog arloesedd, gwytnwch a chynaliadwyedd | Portffolio gwydn o sefydliadau sy'n cael arian refeniw sydd wedi lleihau gan 5% ei ddibyniaeth ar arian Cyngor Celfyddydau Cymru, cynyddu ei incwm a enillir gan 5% a lleihau ei ôl troed carbon gan 10%.. |
| 6. Amddiffyn a thyfu'r sail economaidd ar gyfer celfyddydau Cymru | Cynnydd o 10% mewn incwm sy'n ychwanegol at y cymorth grant ac arian y Loteri a gynhyrchir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. |
| 7. Arddangos gwerth y celfyddydau | Cynnydd o 5% yn lefel cefnogaeth gadarnhaol y cyhoedd o ran pwysigrwydd ariannu'r celfyddydau. |
| 8. Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru yn gorff | Lefelau uwch o fodlonrwydd ar ran y rhanddeiliaid fel y mesurir ef drwy gyfrwng |

## Ein Cynllun Gweithredol

Gellwch ddod o hyd i ragor am ein gwaith flwyddyn yn ôl blwyddyn drwy ddarllen ein Cynllun Gweithredol.

## Cysylltwch â ni

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400
Neges destun: 07797 800504 (Dim ond ar raddfa safonol eich rhwydwaith y talwch am y negeseuon)

E-bost: gwybodaeth@celfcymru.org.uk
Gwefan: www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk



Sinfonia Cymru yn perfformio yn Mhroms Bryste 2014
(llun: Mark Douet)